**Date/**Dyddiad: 7 Chwefror 2018
**Ask for/** Gofynnwch am: Y Cyng. John Thomas
**Telephone**/Rhif ffôn: 01446 709469
**Fax**/Ffacs:
**Your Ref**/Eich Cyf:
**My Ref**/Cyf: JWT/NM/JCC/SF/47929
**e-mail**/e-bost: JWThomas@valeofglamorgan.gov.uk

**The Vale of Glamorgan Council**
Civic Offices, Holton Road, Barry, CF63 4RU
Tel: (01446) 700111

Textphone/Ffôn Testun: (01446) 709363
www.valeofglamorgan.gov.uk

**Cyngor Bro Morgannwg**
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri CF63 4RU
Ffôn: (01446) 700111

Annwyl Riant

**Cyllid addysg fesul disgybl ym Mro Morgannwg**

Rydym yn ysgrifennu atoch ar ran Cyngor Bro Morgannwg a'r Fforwm Cyllideb Ysgolion, sy'n grŵp a sefydlwyd gan yr Awdurdod Lleol i fonitro unrhyw faterion yn ymwneud â chyllido Ysgolion yn yr Awdurdod Lleol. Fel grŵp, mae gennym rai pryderon difrifol iawn sef bod y dulliau a ddefnyddir i ariannu addysg disgyblion ar draws Cymru yn ddiffygiol ac yn arwain at anghydraddoldebau difrifol ymysg myfyrwyr.

Ariennir addysg yng Nghymru gan ddefnyddio fformiwla Llywodraeth Cymru sy'n pennu lefel y gyllideb y dylai bob awdurdod lleol ei derbyn.

Mae lefel y cyllid a ddyrannir fesul disgybl ym Mro Morgannwg yr isaf yng Nghymru a chredwn fod disgyblion Bro Morgannwg dan anfantais o ganlyniad i hyn.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi gwneud ymdrech i gyfeirio mwy o gyllid at wasanaethau addysg ac ar hyn o bryd mae'n rhoi cyllid o £3 miliwn yn fwy na'r swm a awgrymir gan Lywodraeth Cymru yn y fformiwla.

Fodd bynnag, mae disgyblion Bro Morgannwg yn parhau yn y safle olaf o'r 22 o awdurdodau o ran cyllid fesul disgybl.

Y gwariant cyllideb ysgolion gros ym Mro Morgannwg ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol yw £5,022 fesul disgybl, sy'n £606 fesul disgybl yn is na chyfartaledd Cymru, sef £5,628. Fel byddwch chi'n sylweddoli, mae hyn yn golygu y gwarir £606 yn llai ar addysg eich plentyn bob blwyddyn nag addysg y plentyn cyfartalog ar draws Cymru.

Mae gan yr awdurdod sy'n derbyn y cyllid mwyaf, gyllideb gros fesul disgybl o £6,382, sy'n golygu bod gwahaniaeth o £1,360 fesul disgybl rhwng yr awdurdodau sy'n derbyn y mwyaf o gyllid a'r rhai sy'n derbyn y lleiaf o gyllid.

Ymhellach, ymddengys bod y bwlch rhwng yr awdurdodau sy'n derbyn y mwyaf o gyllid a'r rhai sy'n derbyn y lleiaf o gyllid yn cynyddu, a bod y sefyllfa gymharol ar gyfer disgyblion yn y Fro yn gwaethygu. Mae'n syndod, er gwaethaf pwysau chwyddiant, fod lefel y cyllid ar gyfer Disgyblion Ysgolion y Fro bellach £123 yn is ar gyfartaledd nag ydoedd 4 blynedd yn ôl yn 2014.

Mae'r Fforwm Cyllideb wedi treulio peth amser yn dadansoddi fformiwla Llywodraeth Cymru ac mae'n credu ei bod yn ddiffygiol a ddim yn berthnasol mwyach. Mae Llywodraeth Cymru'n nodi mai ecwiti, sefydlogrwydd, eglurder a pherthnasedd yw'r egwyddorion sy'n ategu ei fformiwla, ac eto rydym yn nodi nad yw'r fformiwla wedi'i hadolygu'n llawn ers 2001 a'i bod yn defnyddio data cyfrifiad mor bell yn ôl â 1991 i ddosbarthu rhai elfennau cyllid. Hefyd, nodwn fod y fformiwla yn dyrannu cyllid i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn seiliedig ar ffactorau tlodi yn hytrach na'r wybodaeth ddiddiwedd sydd ar gael am anghenion disgyblion. Nid yw'r data hwn wedi'i ddiweddaru ers 2003. Dyma ddwy enghraifft o nifer o faterion sydd wedi peri ni i ddod i'r casgliad nad yw'r fformiwla'n addas at y diben.

Mae'r Fforwm Cyllid ac Arweinydd y Cyngor, y Cyng. John Thomas, wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ar wahân, a hynny dair gwaith, yn mynegi pryderon penodol ac yn mynnu bod Llywodraeth Cymru'n ystyried cynnal adolygiad llawn o fformiwla sy'n arwain at anghydraddoldebau mor amlwg mewn cyllid ar draws Cymru, er anfantais i ddisgyblion ym Mro Morgannwg.

Yn anffodus, mae Llywodraeth Cymru wedi methu ymateb yn foddhaol i'n llythyrau ac nid yw wedi dangos unrhyw barodrwydd i fynd i'r afael â'n pryderon.

O ganlyniad, rydym wedi penderfynu rhannu ein pryderon â chi yn y gobaith y byddwn yn gallu cydweithio i ddarbwyllo'r Llywodraeth i roi mwy o ystyriaeth i'r mater hanfodol hwn ac ailystyried ei fformiwla mewn ymgais i sicrhau y gall cyllid ar gyfer disgyblion ar draws Cymru ddod yn fwy cydradd.

Os hoffech ein cefnogi, gofynnwn i chi ysgrifennu at Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Addysg, Kirsty Williams drwy'r cyfeiriad e-bost canlynol Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales gan fynegi eich pryderon. Byddem yn ddiolchgar os gallech ein cynnwys ni yn eich gohebiaeth gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost canlynol schoolsfinancesupport@valeofglamorgan.gov.uk.

Yn gywir

Y Cynghorydd John Thomas
Yr Arweinydd

Dr V M Browne
Pennaeth
Cadeirydd Fforwm Cyllid Cyngor Bro